Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Adolygiad o System Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Ymateb ar y cyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**1. Ai sefydlu Pwyllgor Deisebau yw'r ffordd orau i sicrhau bod deisebau yn cael sylw priodol? A ydi maint a chyfansoddiad y Pwyllgor yn briodol ar gyfer ei swyddogaeth?**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn cyfeirio'n benodol at gyfranogiad plant, pobl ifanc a phobl hŷn mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Rhaid iddynt hefyd allu cael gafael ar wybodaeth berthnasol sy'n ategu eu lleisiau ac sy'n eu galluogi i fod yn ddinasyddion gweithgar mewn cymdeithas sifil. Mae gwaith Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hollbwysig i rymuso dinasyddion Cymru drwy roi llais iddynt. Rydym ni o'r farn mai parhau i gael Pwyllgor pwrpasol sy'n darparu llwyfan ar gyfer ystyried deisebau fyddai orau.

O gofio maint presennol Cynulliad Cymru, rydym yn ymwybodol iawn o'r galw sydd ar amser a gallu Aelodau. Oherwydd natur eang deisebau, efallai y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor gynyddu ei aelodaeth. Serch hynny, mae'n amlwg fod yr aelodau a'r tîm clercio presennol yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn effeithiol iawn ac yn llywio'r rhwydweithiau sy'n gysylltiedig â strwythur Pwyllgorau'r Cynulliad a phortffolios Gweinidogol yn fedrus iawn er mwyn rhoi cymorth i ddeisebwyr gyda'u hachosion.

**2. A oes angen mwy o eglurder ynghylch y ffurf gywir ar gyfer deisebau neu a yw'r trefniadau cyfredol yn ddigonol?**

Gan nad oes unrhyw angen wedi bod i'r Llywydd bennu beth yw'r ffurf gywir ar gyfer deisebau, mae'n ymddangos fod yr hyblygrwydd sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd yng nghyswllt deisebau yn ddigonol. Rydym yn cytuno gyda'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi i ganiatáu i ddeisebwyr gyflwyno eu hachosion yn eu geiriau eu hunain.

**3. A ydi'r nifer lleiaf cyfredol o lofnodion sydd ei angen ar gyfer deiseb (10) yn rhy uchel, yn rhy isel neu tua'r nifer iawn? A ddylai sefydliadau hefyd orfod bodloni'r trothwy nifer lleiaf (beth bynnag ydi'r nifer hwnnw)? Os yw trothwy gwahanol yn parhau i fod yn berthnasol i sefydliadau, a oes angen bod yn fwy manwl wrth gymhwyso'r diffiniad o sefydliad?**

Mae'n ymddangos fel pe bai'r nifer gyfredol o lofnodion yn isafswm rhesymol

oherwydd mae'n rhaid i ni ddeall er nad yw materion yn ymddangos fel pe baent yn rhai cyffredin neu fod cefnogaeth eang iddynt, mae'n amlwg eu bod yn destun pryder i'r rheini sy'n cyflwyno'r ddeiseb ac fe allent fod â goblygiadau i unigolion, grwpiau a chymunedau eraill. Byddai'n ymddangos yn rhesymol i gael trothwy isaf cyson y mae'n rhaid i sefydliadau a grwpiau o unigolion ei fodloni.

**4. A ddylai'r Cynulliad barhau i ystyried deisebau ynghylch materion y mae Llywodraeth Cymru neu'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt yn unig?**

Gan fod pwyllgor deisebau ar waith yn Senedd y DU, mae'n ymddangos yn ddianghenraid i'r Cynulliad ystyried materion sydd y tu hwnt i'w gymhwysedd. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor gael perthynas adeiladol gyda'i gorff cyfatebol yn San Steffan a'i gwneud yn glir i ddeisebwyr os byddai'n well ymdrin â'u deiseb ar lefel y DU.

**5. A ddylai'r Cynulliad ystyried deisebau ynghylch materion y mae awdurdodau lleol unigol yn bennaf gyfrifol amdanynt? A oes gan awdurdodau lleol unrhyw gyfrifoldebau y dylid caniatáu deisebau yn eu cylch?**
**a**
**6. A ddylai'r Cynulliad barhau i ystyried deisebau ynghylch materion y mae cyrff cyhoeddus (ar wahân i awdurdodau lleol) yn gyfrifol amdanynt o ddydd i ddydd? A ddylid trin rhai cyrff cyhoeddus yn wahanol (e.e. Byrddau Iechyd Lleol)?**

Yn anochel, bydd y berthynas symbiotig rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yn golygu y ceir rhywfaint o orgyffwrdd a diffyg eglurder o ran atebolrwydd. Felly, byddem yn argymell bod y Pwyllgor yn ymdrin â phob deiseb a allai fod yn berthnasol i waith y Cynulliad gyda'r diwydrwydd dyladwy. Mae'n amlwg i ni fod nifer o lwybrau eraill ar gael y gallai deisebydd eu dilyn, gan gynnwys gweithdrefnau cwyno a chymorth cyfreithiol. Yn y deunyddiau darllen y mae'r Pwyllgor yn eu darparu, rhoddir pwyslais cryf ar sut y gall dinasyddion fwrw ymlaen â'u deiseb, heb hefyd eu cyfeirio at ddulliau eraill a allai fod yn fwy priodol. Efallai y byddai deisebwyr yn gallu osgoi oedi hir o ran delio ag achosion pe baent yn cael eu cyfeirio at y corff rheoleiddio mwyaf priodol.

**7. A ddylai'r Cynulliad ystyried deisebau sy'n sylweddol debyg i rai sydd eisoes yn cael eu hystyried neu sydd wedi cael eu hystyried yn ddiweddar?**

Rydym yn gyfforddus â dull gweithredu presennol y Pwyllgor.

**8. A ddylai'r Cynulliad barhau i gyhoeddi deisebau sydd wedi cael eu gwrthod o bryd i'w gilydd?**

Er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw byddai'n ymddangos yn briodol i'r Cynulliad barhau i gyhoeddi deisebau sydd wedi cael eu gwrthod o bryd i'w gilydd.

**9. A oes angen newid Rheolau Sefydlog y Cynulliad yng nghyswllt y Pwyllgor Deisebau?**

Er ein bod yn cytuno bod y Rheolau Sefydlog yn golygu bod y Pwyllgor yn gallu gweithio'n hyblyg wrth ddelio â materion sy'n cael eu dwyn i'w sylw, efallai y byddai diwygio'r rheolau sefydlog yn golygu y gellid rhagnodi pa bryd y dylai dadl gael ei chynnal yn y Cynulliad, os cyrhaeddir trothwy penodol. Fel y gŵyr y Pwyllgor, cynhelir dadl ar fater yn San Steffan pan fydd 100,000 o bobl wedi llofnodi e-ddeiseb. Efallai y gellid archwilio a oes modd cael proses debyg yn y Cynulliad.

**10. Pa newidiadau y gellid eu gwneud i'r ffordd y mae'r Pwyllgor Deisebau yn delio â deisebau i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer deisebwyr neu ystyriaeth fwy effeithiol i ddeisebau?**

Mae'n hollbwysig fod y Pwyllgor yn parhau i weithio mewn ffordd agored a thryloyw, a'i fod yn cynnal deialog agored â deisebwyr gydol y broses gyfan. Dylai hyn gynnwys adborth gonest i ddeisebwyr ynghylch y broses y mae eu deiseb wedi mynd drwyddi a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed.

Byddai Comisiynydd Plant Cymru yn dadlau dros roi rhagor o wybodaeth ynghylch y Cynllun Hawliau Plant i ddeisebwyr gydag achosion sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc. Mae Adrannau 10 ac 11 y cynllun yn nodi'r hyn y gall plant a phobl ifanc ei wneud os ydynt yn teimlo nad yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi'r sylw sy'n ddyledus i'r CCUHP . Cyfeirir at y Pwyllgor Deisebau ac at y Comisiynydd Plant yn y cynllun ac mae'r Comisiynydd yn teimlo ei bod yn ddyletswydd arnom i sicrhau bod y cynllun, a thrwy hynny, y confensiwn, ar gael ar raddfa eang i blant a phobl ifanc er mwyn diogelu eu hawliau.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn credu ei bod yn hanfodol bod y Pwyllgor yn parhau i ystyried deisebau digidol a deisebau nad ydynt yn rhai digidol. Nid yw llawer o bobl hŷn yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd er mwyn cael gafael ar wasanaethau. Mae'n hanfodol felly fod y Pwyllgor yn derbyn deisebau papur ac yn rhoi gwybod i gymunedau am y broses cyflwyno deiseb, gan gynnwys rhannu gwybodaeth drwy awdurdodau lleol a chyrff sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

**11. A ddylai'r Pwyllgor Deisebau allu cyfeirio deisebau at sylw'r Ombwdsmon neu ddeiliaid swyddi eraill tebyg, lle mae'n credu bod sail iddo/iddi gynnal ymchwiliad?**

Byddem yn croesawu trafodaethau pellach gyda'r Pwyllgor i atgyfnerthu ein perthynas waith er mwyn rhoi gwell gwybodaeth i'r Pwyllgor am ein cylch gorchwyl a'r pwerau a'r gallu sydd gennym fel Comisiynwyr.

Rhaid i ni hefyd reoli disgwyliadau deisebwyr yn ofalus; os nad oes gan Gomisiynydd ddull posibl o ddatrys eu cwyn, oherwydd ei gylch gorchwyl neu ei allu, yna gallai'r atgyfeiriad ymestyn y broses yn ddiangen. Gall deialog agored rhwng y Pwyllgor a'r Comisiynwyr helpu i sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer

y deisebwyr.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn awyddus i ddatblygu'r ffordd y mae ei swyddfa yn ychwanegu at ei sylfaen dystiolaeth wrth geisio mynd i'r afael â materion hawliau plant systemig.  Byddai'n gwbl gefnogol i gynnal deialog reolaidd gyda'r Pwyllgor er mwyn gweithio tuag at gasglu data o'r fath.

**12. Pa bryd y dylid cau deisebau os nad ydynt wedi cael eu datrys? A ddylid eu cadw'n agored cyhyd ag y bydd y materion y mae'r ddeiseb yn eu codi yn parhau heb eu datrys neu a ddylid eu cau cyn gynted ag y daw'n glir nad oes modd eu datrys?**

Mae'r trefniant presennol o ran cau deisebau yn ymddangos yn deg iawn ac yn ystyrlon o fuddiannau deisebwyr.

**13. A ddylid ystyried deisebau a gaiff eu casglu ar wefannau trydydd parti (e.e. change.org neu 38degrees.org) yn yr un ffordd â deisebau a gaiff eu casglu ar wefan y Cynulliad neu ar bapur? A ddylid pennu cyfnod penodol o amser ar gyfer casglu llofnodion ar gyfer deiseb lle mae'r ddeiseb yn 'methu' ar ôl hynny.**

Er mwyn i'r broses cyflwyno deisebau fod mor agored a hawdd ei defnyddio â phosibl, dylid gwneud darpariaeth bod deisebau trydydd parti yn cael eu clywed gan Bwyllgor y Cynulliad. Mae nifer o ddeisebau sy'n dal yn weithredol ar wefannau trydydd parti sy'n ymwneud â gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Byddai ystyried y deisebau hyn yn cynnig ffordd ychwanegol o glywed llais deisebwyr sydd ddim yn gyfarwydd â phroses cyflwyno deiseb y Cynulliad Cenedlaethol.

**14. Pwy ddylai allu cyflwyno a llofnodi deisebau? A ddylid pennu unrhyw gyfyngiad preswylio neu gyfyngiad oedran? A ddylai staff sy'n gweithio i Aelodau Cynulliad a'r Cynulliad ei hun allu cyflwyno deisebau? A ddylid atal pleidiau gwleidyddol rhag cyflwyno deisebau?**

Mae'r cyfyngiadau cyfredol ar ddeisebwyr yn ddigonol ac yn sicr ni fyddem yn dymuno gweld cyfyngiad yn cael ei roi ar oed deisebydd neu lofnodwr.